# Y Dywysoges a Allai Chwerthin

Roderick Hunt    Alex Brychta



Coeden Ddarllen Rhydychen

Rhagor o Dylluanod

DRAKE




Roedd gan Dids lyfr newydd.
Roedd yn sôn am dywysoges
na allai chwerthin.
Allai neb wneud iddi chwerthin.





Cafodd Dids syniad.
'Ceisia wneud i fi chwerthin,' meddai.
Tynnodd Cad wyneb digri, ond
fedrai hi ddim gwneud i Dids chwerthin.







Gwisgodd Cad wallt gosod digri.
Dywedodd jôc ddoniol, ond
fedrai hi ddim gwneud i Dids chwerthin.
'Dyw hyn yn dda i ddim,' meddai hi.



Roedd gan Onw ddannedd gosod digri.
Roedd y dannedd digri yn newydd.
Clic, clic, clic, aeth y dannedd.
Roedd pawb yn chwerthin ac yn chwerthin.





Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
Rhedodd y plant i ystafell Cad.
Aeth yr hud â nhw ar
antur newydd.




Roedd y plant mewn pentref.
Gwelson nhw hysbysiad ar goeden.
Roedd yn sôn am dywysoges
na allai chwerthin.






Cafodd Onw syniad.
Roedd y dannedd digri ganddo o hyd.
'Gwna i i'r dywysoges chwerthin,'
meddai.




Roedd y brenin yn y pentref.
Dywedodd merch jôc wrtho.
'Dim yn ddoniol,' meddai'r brenin.
'Wnaiff honna ddim i'r dywysoges chwerthin.'



'Pwy sydd nesaf?' galwodd y brenin.
'Fi,' meddai dyn.
'O na!' griddfanodd y brenin.
'Nid cyw iâr arall!'




Aeth y plant at y brenin.

'Gwnawn ni i'r dywysoges
chwerthin,' meddai Cad.

'Sut?' gofynnodd y brenin.






Clic, clic, clic, aeth y dannedd.

Roedd pawb yn chwerthin ac yn chwerthin.

'Gwnân nhw i'r dywysoges chwerthin,'
meddai'r brenin.



Gollyngodd Onw y dannedd.

Daliodd ci nhw a rhedeg i ffwrdd â'r dannedd yn ei geg.





'Stopiwch y ci 'na!' bloeddiodd y brenin.

'Stopiwch y ci a gafaelwch yn y dannedd.'

Rhedodd pawb ar ôl y ci.


'Gafaelwch yn y dannedd!' bloeddiodd y brenin.



Roedd y ci yn rhy gyflym.
Allai neb ei ddal.
'Stopiwch y ci 'na!' bloeddiodd y brenin.



Rhedodd y ci ffordd hyn a ffordd arall.
Ceisiodd pobl ei ddal, ond
roedd yn rhy gyflym.
'Gafaelwch yn y dannedd!' bloeddiodd Onw.



Rhedodd y brenin ar ôl y ci.
Rhedodd pawb ar ôl y brenin.
Cwympodd y brenin.





Gwelodd y ci asgwrn a stopiodd.
Gafaelodd Dids yn y ci a
gollyngodd y ci y dannedd.



Cododd Onw y dannedd digri.
Edrychodd pawb arnyn nhw.
Roedd y dannedd wedi torri.
'O na!' meddai'r brenin.





Rhoddodd y brenin y dannedd ar glustog.
'Dyna drueni!' meddai.
'Wnân nhw ddim gwneud i'r
dywysoges chwerthin nawr.'



Clywodd y dywysoges y twrw.
Edrychodd drwy ffenestr.
Gwelodd y brenin a dechreuodd
chwerthin.




Roedd mwd ar ddillad y brenin.
Roedd y dannedd ganddo ar y clustog.
Edrychai mor ddoniol fel y
chwarddodd y dywysoges.




Edrychodd y brenin ar y dywysoges.
'Rwyf wedi gwneud i'r dywysoges chwerthin,'
meddai.
Chwarddodd pawb a bloeddio hwrê.



Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
Aeth yr hud â'r plant adref.
Ond welodd neb y plant yn mynd.
Roedd pawb yn chwerthin.



‘Beth wnaeth i’r dywysoges chwerthin?’
gofynnodd Onw.
‘Wn i ddim,’ meddai Dids.
‘Rhywbeth gwirion, mae’n siŵr.’

Argraffwyd yng Nghymru

# Y Dywysoges a Allai Chwerthin

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 6



Rhagor o Dylluanod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Tylluanod Cam 6**

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafforddd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1994
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-300-8

9 790861 743000

ISBN 0 86 174300 8

DRAKE